

Colli clyw

20 Mehefin 2018

Colli clyw: y gofal y dylech ei ddisgwyl

Mae colli clyw yn gyflwr cyffredin sy'n effeithio ar tua 9 miliwm o bobl yn Lloegr. Fel arfer, mae'n digwydd yn raddol wrth i bobl fynd yn hŷn ac mae fwyaf cyffredin ymysg pobl dros 65 oed. Gall problemau gyda'r clyw ddigwydd ar unrhyw oedran o ganlyniad i nifer o achosion gwahanol. Yn aml, mae pobl yn esgeluso cael help ar gyfer colli clyw. Ond, gall cael effaith fawr ar ansawdd eu bywyd, gan achosi iddynt golli hyder a theimlo fel petaent wedi eu hynysu oddi wrth deulu a ffrindiau. Gall hefyd arwain at iselder a gorbryder. Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n colli eu clyw drwy sicrhau'r canlynol:

- bod unrhyw anawsterau gyda'ch clyw yn cael eu canfod yn gynnar ac y gweithredir arnynt yn syth
- y cynigir prawf clyw i chi cyn gynted ag y bydd gennych chi, eich gofalwr neu eich meddyg bryderon am eich clyw
- y gallwch gael y math cywir o ofal, gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â'ch clyw
- bod pobl y mae angen gofal meddygol arnynt ar gyfer eu colled clyw yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth cywir ac yn cael eu gweld yn gyflym pan fo angen.

Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich meddyg neu'ch awdiologydd (arbenigwr clyw) roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael allan o unrhyw driniaeth?

- Beth sy'n eich poeni fwyaf - a oes risgiau neu anfanteision i'r opsiynau gwahanol ynglŷn â rheoli colli eich clyw sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dwedwch hynny wrth eich awdiolegydd neu'ch doctor.

Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae gan [NHS Choices](#) ragor o wybodaeth am golli clyw.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- [Action on Hearing Loss](#), ffôn 0808 808 0123, ffôn testun 0808 808 9000
- [C2Hear online](#)
- [Hearing Link](#), ffôn 0300 111 1113, SMS 07526 123255
- [Sense](#), ffôn neu ffôn testun 0300 330 9256

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Er mwyn rhannu profiad am ofal a gawsoch, cysylltwch â'ch tîm [Gwarchod Iechyd](#) lleol

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae colli clyw wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-2977-1